OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 196 (Cy. 45)

# ENILLION TROSEDDAU, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Chwefror 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *21 Chwefror 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 453(1A) a (2) o Ddeddf Enillion Troseddau 2002(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2018.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ACC" ("*WRA*") yw Awdurdod Cyllid Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Enillion Troseddau 2002.

### Cyfeiriad at ymchwilydd ariannol achrededig

**3.** Mae cyfeiriad at ymchwilydd ariannol achrededig mewn darpariaeth o'r Ddeddf a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen yn gyfeiriad at ymchwilydd ariannol achrededig sy'n aelod o staff ACC.

**4.** Mae cyfeiriad at ymchwilydd ariannol achrededig mewn darpariaeth o'r Ddeddf a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen yn gyfeiriad at ymchwilydd ariannol achrededig sy'n aelod o staff ACC ac sydd ar radd 7 neu uwch neu radd gyfatebol.

(**1**) 2002 p. 29. Mewnosodwyd adran 453(1A) gan adran 186(4) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

20 Chwefror 2018

ATODLEN

Erthyglau 3 a 4

Cyfeiriad at ymchwilydd ariannol achrededig

# RHAN 1

**1.** Adran 42(2)(c) (cais am orchymyn atal o dan Ran 2 – yn ddarostyngedig i awdurdodiad o dan adran 68(3)(c)).

**2.** Adrannau 47A(1)(c)(**2**) (adrannau 47B i 47S: ystyr "appropriate officer") a 47M(3)(c) (cadwad pellach gan lys ynadon).

**3.** Pennod 3 o Ran 5 (ar wahân i'r ail gyfeiriad yn adran 290(4)(c)(**3**)).

**4.** Adran 352(5)(c)(**4**) (y person priodol at ddibenion gwarantau chwilio ac ymafael o dan Bennod 2 o Ran 8).

**5.** Adran 353(10)(c)(**5**) (y person priodol ar gyfer sicrhau mynediad ar unwaith i fangre pan na fo gorchymyn cyflwyno ar gael).

**6.** Adran 378(1)(b) (y swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau atafaelu o dan Ran 8).

**7.** Adran 378(3A)(ab)(**6**) (y swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau arian parod dan gadwad o dan Ran 8).

**8.** Adran 378(4)(a) (y swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau gwyngalchu arian o dan Ran 8).

# RHAN 2

**9.** Adran 47G(3)(c) (cymeradwyaeth briodol).

**10.** Adran 68(3)(c) (awdurdodiad ar gyfer ceisiadau ac apelau o dan Ran 2).

**11.** Adran 290(4)(c) (cymeradwyaeth ymlaen llaw gan uwch-swyddog i gynnal chwiliad arian parod o dan Bennod 3 o Ran 5).

**12.** Adran 378(2)(d) (uwch-swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau atafaelu).

**13.** Adran 378(3AA)(b)(**7**) (uwch-swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau arian parod dan gadwad).

**14.** Adran 378(6)(c) (uwch-swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau gwyngalchu arian).

---

(**2**) Mewnosodwyd adrannau 47A i 47S gan adran 55(1) a (2) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26).
(**3**) Mewnosodwyd adran 290(4)(c) gan adran 79 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 (p. 27), a pharagraffau 1 a 3(1) a (2) o Atodlen 11 iddi.
(**4**) Mewnosodwyd adran 352(5)(c) gan adran 77 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007, a pharagraffau 1 a 7(1) a (3) o Atodlen 10 iddi. Fe'i diwygiwyd gan adran 80(1)(b) o'r Ddeddf honno.
(**5**) Mewnosodwyd adran 353(10)(c) gan adran 77 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007, a pharagraffau 1 ac 8(1) a (3) o Atodlen 10 iddi. Fe'i diwygiwyd gan adran 80(3)(b) o'r Ddeddf honno.
(**6**) Mewnosodwyd adran 378(3A) gan adran 77 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007, a pharagraffau 1 a 13 o Atodlen 10 iddi. Mewnosodwyd paragraff (ab) gan adran 80(7) o'r Ddeddf honno.
(**7**) Mewnosodwyd adran 378(3AA)(b) gan adran 49(b) o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), a pharagraffau 24 a 27(1) a (2) o Ran 2 o Atodlen 19 iddi.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod cyfeiriadau at ymchwilwyr ariannol achredededig yn Neddf Enillion Troseddau 2002 ("y Ddeddf") i'w darllen fel cyfeiriadau at ymchwilwyr ariannol achredededig sy'n aelodau o staff Awdurdod Cyllid Cymru.

Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn nodi'r pwerau y gall ymchwilydd ariannol achredededig eu harfer o dan y Ddeddf.

Caiff ymchwilwyr ariannol achredededig wneud cais am orchmynion atal o dan Ran 2 o'r Ddeddf a chânt ymafael mewn eiddo y mae unrhyw orchymyn atal o'r fath yn gymwys iddo. Caiff ymchwilwyr ariannol achredededig hefyd chwilio am arian parod, ymafael ynddo, ei gadw a gwneud cais i'w fforffedu o dan Bennod 3 o Ran 5 o'r Ddeddf. Cyn arfer pwerau chwilio, rhaid iddynt (oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny o dan yr amgylchiadau) gael cymeradwyaeth ymlaen llaw oddi wrth naill ai ynad heddwch neu uwch-swyddog y mae'n rhaid iddo hefyd fod yn ymchwilydd ariannol achredededig. Caiff ymchwilwyr ariannol achredededig hefyd wneud cais am orchmynion a gwarantau mewn perthynas ag ymchwiliadau atafaelu, gwyngalchu arian ac arian parod dan gadwad o dan Ran 8 o'r Ddeddf at ddibenion, ymysg pethau eraill, ei gwneud yn ofynnol i berson penodedig gyflwyno deunyddiau penodol; caniatáu chwiliad o fangre benodedig ac ymafael mewn deunyddiau ynddi a'i gwneud yn ofynnol i sefydliad ariannol ddarparu gwybodaeth cwsmeriaid sy'n ymwneud â pherson penodedig. Ymchwilydd ariannol achredededig yn unig, sydd, gan ddibynnu ar natur y gorchymyn neu'r warant, naill ai'n berson priodol, yn swyddog priodol neu'n uwch-swyddog priodol, gaiff wneud cais am y pwerau o dan orchmynion neu warantau o'r fath a/neu eu harfer.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.